

Hope Swffragét Lego – Cais Benthg

Mae Hope, ein Swffragét Lego, ar gael yn awr i'w benthg i sefydliadau ledled y DU i helpu adrodd hanes y bleidlais i fenywod 100 mlynedd ar ôl i'r fenyw gyntaf ennill yr hawl i bleidleisio.

Os hoffai eich sefydliad fenthg Hope, cwblhewch y ffurflen isod a'i dychwelyd i engage@parliament.uk. Byddwn yn cysylltu o fewn chwech wythnos i roi gwybod i chi a yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus.

Cafodd Hope ei hadeiladu yn 2018 i Dîm Addysg ac Ymgysylltu Senedd y DU, i'n helpu i adrodd hanes y bleidlais i fenywod 100 mlynedd ar ôl i'r fenyw gyntaf ennill yr hawl i bleidleisio. Gofynnwn ni i'r cyhoedd #EnwiEinChwaer, a dewison nhw Hope!

Mewn deng mlynedd byddwn yn dathlu Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1928 (Etholfraint Gyfartal), a roddodd hawliau pleidleisio cyfartal i bob menyw a dyn. Mae adeiladu Hope a'i gweld yn teithio'r DU wrth arwain at 2028 yn ffordd wych i ddathlu'r canmlwyddiant hwn!

Manylion am Hope

Cafodd Hope ei Hadeiladu gan y Grŵp Lego. Cymerodd 171 o oriau i o dri o bobl ei hadeiladu. Mae hi wedi ei gwneud o 32,327 o friciau ac mae hi'n 170cm o daldra. Mae Hope wedi ei chynllunio ar gyfer defnydd dan do, gellir ei chyffwrdd a thynnu llun ohoni, ond dim dringo arni. Bydd angen i chi sicrhau bod gennych ofod addas ar ei chyfer. Byddem yn hapus i roi cyngor i chi ar hyn.

Mesuriadau

- Talra: 170 cm
- Lled: 84 cm
- Dyfnder: 71 cm

Cyfanswm pwysau'r model: 94.5 kg

Mae Hope yn sefyll ar blat sylfaen atodedig sy'n cael ei gynnwys yn y mesuriadau uchod.

Mesuriadau'r blwch storio y bydd Hope yn cael ei chludo ynddo yw:

- Talra: 188cm
- Lled: 95cm
- Dyfnder: 79cm

Nodiadau pwysig

- Cafodd y model ei gynllunio ar gyfer cyswllt â'r cyhoedd.
- Mae'r model wedi ei wneud ar gyfer defnydd dan do yn unig
- Mae'n rhaid i'r model gael ei osod ar arwyneb cadarn, gwastad a sefydlog.

Costau

Byddwch chi'n gyfrifol am sicrhau bod gennych yswiriant perthnasol i yswirio Hope tra'i bod gyda chi. Chi sy'n gyfrifol am gostau'r yswiriant, arddangos Hope, unrhyw atgyweiriadau, iawndaliadau neu adfer. Senedd y DU sy'n gyfrifol am gostau cludiant.

Defnydd

Ni ddylech fod yn sefydliad a allai ym marn Senedd y DU arwain atom yn cael ein beirniadu neu ddioddef niwed i'n henw da oherwydd eich cysylltiad â Hope.

Mae'n rhaid i chi ymatal rhag unrhyw weithgaredd neu ddefnydd o Hope mewn unrhyw ffordd a allai roi'r argraff, naill ai'n uniongyrchol neu trwy awgrym, fod Senedd y DU yn cymeradwyo unrhyw safbwynt gwleidyddol penodol, sefydliad, ymgyrch, cynnyrch masnachol, gweithgaredd neu fater tebyg arall o'r fath.

Bydd ein benthyciad o Hope i'ch sefydliad yn amodol ar gontract, y bydd rhaid i chi a ni ei lofnodi, cyn i'r benthyciad ddechrau.

Bydd hyd y benthyciad yn cael ei benderfynu wrth ein disgresiwn ni. Rhowch wybod i ni am ba mor hir yr hoffech gael Hope a byddwn yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth wneud ein penderfyniad.

Cadwn yr hawl i alw'r benthyciad yn ôl os nad yw telerau ac amodau cytundeb y benthyciad yn cael eu hateb.

Ffurflen Gais Benthg

Enw'r Sefydliad	
Enw'r Cyswllt	
Cyfeiriad E-bost	
Rhif Ffôn	
Cyfeiriad y Sefydliad	
Cyfeiriad gwefan y sefydliad	
Pryd hoffech chi fenthg Hope? (Rhowch ddyddiadau dechrau a gorffen i ni.)	
Dywedwch wrthym pam yr hoffech fenthg Hope. (Cynhwyswch unrhyw gysylltiadau â Senedd y DU, mudiad y bleidlais a democratiaeth.)	